

GUIDE
DOGS



Cymru

Modiwl 3

Nid yw colli eich golwg yn golygu colli arnoch



Nid yw colli eich golwg yn golygu colli arnoch eich hun

Cysylltiadau â Chwricwlwm

Cymraeg, Saesneg, ABCh, Dinasyddiaeth, Dealltwriaeth Bersonol a Chilyddol, Iechyd a Llesiant, Cyflogadwyedd

Adnoddau angenrheidiol

- Taflen adnoddau "Diwrnod ym mywyd"
- Eitemau bob dydd ar gyfer y gweithgaredd mewn pâr "tasgau bob dydd heb olwg"
- Mygydau
- Mynediad at You Tube ar gyfer y fideo "Creating Guide Dog Partnerships"

Gweithgaredd

Bywyd bob dydd heb olwg – trafodaeth mewn parau

Ystyriwch fywyd bob dydd, eich hobiau ar gyfer y dyfodol. Ysgrifennwch ar gyfer faint o'r pethau hyn y mae'n ofynnol eich bod yn gallu gweld a pham.

Gall enghreifftiau gynnwys:

- **Gwisgo** – dewis dillad, cael cawod, steilio eich gwallt, gwisgo colur.
- **Paratoi bwyd** – gwybod ble mae pethau yn y gegin; beth sydd yn y caniau/pacedi/poteli; gallu bwyta heb wneud llanast.
- **Teithio** – cyrraedd yr ysgol, y siopau, ddim yn mynd ar goll na chael anaf/rhedeg drosodd.
- **Hobiau** – chwaraeon, sinema, cyfryngau cymdeithasol a siopa i gyd yn weledol iawn.
- **Cynlluniau i'r dyfodol** – mynd i'r coleg, cael swydd, pa fath o swydd?

Gweithgaredd

Gweithgaredd mewn pâr – perfformio tasgau

bob dydd heb olwg

Dangos i'r dosbarth sut beth yw e i wneud tasgau bob dydd heb olwg – trefnu tasgau mwgwd.

- **Gwisgo** – ceisiwch wisgo top gyda botymau a gwisgo esgidiau a chlymu'r carau.
- **Siopa** – dewch â detholiad o ganiau, poteli a pheccynnau yn cynnwys corn melys, ffa pob, tomatos tun, sgwosh, olew, jêl cawod, siampw, pasta a reis. Rhowch restr siopa i'r parau o rai o'r eitemau. Bydd un aelod o'r pâr yn darllen yr eitemau allan tra bo'r llall yn ei ddewis o'r detholiad.
- **Gwneud rhywbeth i'w fwyta** – gwnewch frechdan a gwydraid o sgwosh.

Trafodaeth ôl-weithgaredd

- Pa mor anodd oedd y dasg?
- Pa gamau fyddai wedi bod yn haws gyda golwg?
- Beth fyddai'n helpu i wneud y dasg yn haws?
- A fyddai person ifanc â nam ar ei olwg yn gallu byw'r un fath o fywyd â pherson sy'n gallu gweld?
- Mae'n debygol y daw'r dosbarth i gasgliad na fyddai person â nam ar ei olwg yn gallu gwneud yr un pethau â pherson sy'n gallu gweld.

Gweithgaredd

Gwylwch y fideo “Creating guide dog partnerships”

Trafodwch:

- Beth oedd Steve yn ei ganfod yn anodd pan ddaeth ei gi tywys ato yn gyntaf?
- Sut mae Steve yn cyflawni tasgau bob dydd, sut fydddech chi'n addasu'r dasg o wneud diod boeth pe na fydddech chi'n gallu gweld?
- Beth mae bod yn berchennog ar Flynn, yn ei roi i Steve?
- Pe bydddech yn colli eich golwg yfory, sut fyddai hyn yn effeithio ar eich annibyniaeth, meddylwch am eich bywyd cyfredol bob dydd a chynlluniau i'r dyfodol, sut fydddech chi'n gallu addasu?

Gweithgaredd

Astudiaeth Achos a thrafodaeth

Defnyddiwch yr Astudiaeth achos taflen adnoddau “Diwrnod ym mywyd” - Ar ôl i'r dosbarth ddarllen y daflen trafodwch y pethau mae Kelsey yn eu gwneud a allai fod yn annisgwyl, beth yw cyfraniad technoleg i'w drefn ddyddiol? Trafodwch ei obeithion a'i freuddwydion o ddyfod yn newyddiadurwr sy'n byw yn Ewrop. Ystyriwch sut mae ei gi tywys Lacey wedi dylanwadu ar ei fywyd.










Gofynnwch i'r disgyblion ailymweld â straeon Diwrnod ym Mywyd a ysgrifennwyd ganddynt ar ddechrau'r modiwl. Ystyriwch a yw eu teimladau cychwynnol ynghylch sut beth yw bywyd wedi newid, os felly, beth sydd wedi newid? Sut beth fyddai bywyd go iawn? Sut beth fyddai bywyd gyda chi tywys?



Astudiaeth Achos

Diwrnod ym mywyd

Kelsey ydw i, rwy'n 16 a dyma fy niwrnod cyffredin.

-  **5.30am** Rwy'n codi a mynd â fy nghi tywys, Lacey, allan i fynd i'r tŷ bach. Yna rwy'n cael coffi i ddechrau fy niwrnod a gwirio am ddiweddariadau ar Twitter. Rwy'n rhoi brecwast i Lacey ac mae'n f'arwain i'r arosfan bws ble rwy'n dal y bws i groesi'r dref.
-  **7.13am** Rwy' ar y bws ac yn defnyddio'r amser i wirio statws ac amseroedd y Tiwb ar fy ffôn.
-  **7.50am** Rwy'n dal y Tiwb i'r ysgol ac fel arfer yn cwrdd â fy ffrindiau a cherdded i'r ysgol gyda nhw. Os fydd amser byddwn yn ymarfer cerddoriaeth, rwy'n defnyddio dyfais recordio er mwyn gwell fy mherfformiad.
-  **8.55am** Rwy'n anelu at fy ngwersi gyda Lacey'n f'arwain. Yn y dosbarth rwy'n cymryd nodiadau gyda fy nodyn Braille neu'n defnyddio fy ngliniadur.
-  **10.55am** Egwyl rhwng gwersi a dwi'n gwneud yn siŵr fod Lacey yn cael cyfle i fynd i'r tŷ bach.
-  **1.15pm** Cinio gyda ffrindiau. Efallai byddaf yn anfon neges destun neu ddwy ac eto'n gwneud yn siŵr fod Lacey yn mynd allan cyn i wersi'r pnawn ddechrau.
-  **3.15pm** Ar ôl ysgol, byddaf yn mynd â Lacey allan eto ac yna'n cerdded i'r dref gyda ffrindiau. Rydym yn edrych o gwmpas y siopau ac yn cael diod boeth a dwi'n talu amdano gyda f'oriawr glyfar.
-  **4.30pm** Rwy'n dal y bws adref; ar y bws rwy'n defnyddio mapiau Google i wneud yn siŵr fy mod yn dod oddi ar y bws wrth yr arosfan cywir. Mae Lacey yn fy nhywys wrth i ni gerdded adref. Ar ôl cyrraedd, y peth cyntaf rwy'n wneud yw mynd â Lacey allan.
-  **6pm** Rwy'n bwydo Lacey, ac wedyn rwy'n cael fy swper. Rwy'n mynd i fyny'r grisiau ac yn gwrando ar y newyddion yn f'ystafell gan ddefnyddio fy nghynorthwydd digidol (Alexa). Efallai byddaf yn galw fy ffrindiau a threulio gweddill y noson yn gwneud gwaith cartref, cyn mynd i'r gwely erbyn 9pm.

Cynlluniau i'r dyfodol:

I ddechrau, rwyf am orffen fy TGAU, yna rwy'n gobeithio byw i ffwrdd o adref ac astudio mewn coleg addysg uwch yn hytrach nac aros yn f'ysgol leol i wneud Lefel A mewn Llenyddiaeth Saesneg, Hanes a Ffrangeg a Btec mewn Braille.

Ar ôl Lefel A y cynllun yw mynd i brifysgol yn Ewrop i astudio Newyddiaduraeth Wleidyddol ac yna cael gyrfa fel newyddiadurwr.